

**PRIFYRDD, CYMRU**

**2019 RHIF 19**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFYRDD (TIR YN  
YSTAD DDIWYDIANNOL TAFARNAU-BACH,  
TREDEGAR, BLAENAU GWENT) 2019**

*Gwnaed* 6 Mehefin 2019  
*Yn dod i rym* 12 Mehefin 2019

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

1. —(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir yn Ystad Ddiwydiannol Tafarnaubach, Tredegar, Blaenau Gwent) 2019 a daw i rym ar 12 Mehefin 2019.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent;

ystyr "y datblygwr" ("*the developer*") yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

ystyr "y plan a adnewwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir yn Ystad Ddiwydiannol Tafarnaubach, Tredegar, Blaenau Gwent) 2019" sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

(1) 1990 p.8; diwygiwyd adran 247 gan adran 20(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p.19) a pharagraff 24 o Atodlen 6 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**HIGHWAYS, WALES**

**2019 NO. 19**

**TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990**

**THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (LAND AT  
TAFARNAUBACH INDUSTRIAL ESTATE,  
TREDEGAR, BLAENAU GWENT) ORDER 2019**

*Made* 6 June 2019  
*Coming into Force* 12 June 2019

The Welsh Ministers, in exercise of their powers under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990(1), make this Order.

**Title, Commencement and Interpretation**

1. —(1) The title of this Order is the Stopping Up of Highways (Land at Tafarnaubach Industrial Estate, Tredegar, Blaenau Gwent) Order 2019 and it comes into force on 12 June 2019.

(2) In this Order:-

"the Council" ("*y Cyngor*") means Blaenau Gwent County Borough Council;

"the deposited plan" ("*y plan a adnewwyd*") means the plan entitled "The Stopping Up of Highways (Land at Tafarnaubach Industrial Estate, Tredegar, Blaenau Gwent) Order 2019" which accompanies this Order; and

"the developer" ("*y datblygwr*") means the person carrying out the development for which the planning permission has been granted;

"the 1990 Act" ("*Deddf 1990*") means the Town and Country Planning Act 1990.

(1) 1990 c.8; section 247 was amended by section 20(4) of, and paragraph 24 of Schedule 6 to, the Local Government (Wales) Act 1994 (c.19). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

## Cau Priffyrdd

2. Yn ddarostyngedig i erthyglau 3, 4, 5 a 6 o'r Gorchymyn hwn mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adnewwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 4 Rhagfyr 2017 o dan y cyfeirnod C/2017/0248 ac a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

## Priffordd y Gwneir Gwelliannau Iddo

3. Gwneir gwelliannau, er boddhad rhesymol y Cyngor, i'r darnau o'r briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â chroeslinellau ar y plan a adnewwyd, ac sy'n briffordd sydd, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980(2), i'w chynnal ar draul y pwrw cyhoeddus. Y Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd sy'n gyfrifol amdani.

## Y Darpariaethau sy'n Angenrheidiol neu'n Hwylus cyn Cau Priffordd

4. Ni chaniateir cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn:-

- (a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos sut y mae'r darn o briffordd i'w gau;
- (b) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu'r darnau o briffordd y gwneir gwelliannau iddynt a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn er boddhad rhesymol y Cyngor;
- (c) hyd nes y bydd y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r darn o briffordd er mwyn i'r datblygiad fynd rhagddo; ac
- (d) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod paragraffau (a), (b) ac (c) wedi eu bodloni.

## Stopping Up

2. Subject to articles 3, 4, 5 and 6 of this Order the Welsh Ministers authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Order and shown by zebra hatching on the deposited plan. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary to enable development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the Council on 4 December 2017 under reference number C/2017/0248 and described in Schedule 3 to this Order.

## Improved Highway

3. There will be improvements made, to the reasonable satisfaction of the Council, to the lengths of highway as described in Schedule 2 to this Order and shown by cross hatching on the deposited plan, which are highways maintainable at the public expense for the purposes of the Highways Act 1980(2) and the Council is to be the highway authority responsible for them.

## Provisions Necessary or Expedient before Stopping Up

4. The length of highway described in Schedule 1 to this Order must not be stopped up until:-

- (a) the developer has provided, to the reasonable satisfaction of the Council, plans showing how the length of highway is to be stopped up;
- (b) the developer has provided the improved lengths of highway described in Schedule 2 to this Order to the reasonable satisfaction of the Council;
- (c) the development described in Schedule 3 to this Order has commenced and the developer has informed the Council in writing of the necessity to stop up the length of highway to allow the development to proceed; and
- (d) the Council has confirmed in writing to the developer that paragraphs (a), (b) and (c) are satisfied.

## Ymgwymerwyr Statudol a Darparwyr

5. Pan fo gan ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn cau'r darn o briffordd yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgwymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau mewn cysylltiad â'r cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

## Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

6. Os na fydd y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau yn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan 3 o Ddeddf 1990 fel cyfnod para'r caniatâd cynllunio, neu os caiff y caniatâd ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

6 Mehefin 2019

*Richard Morgan*

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

## Statutory Undertakers and Providers

5. Where immediately before the length of highway is stopped up, there is under, in, on, over, along or across the highway any apparatus of statutory undertakers or public communications providers then (subject to section 261(4) of the 1990 Act) the undertakers or providers continue to have the same rights in respect of the apparatus as they had before the stopping up.

## Duration of this Order

6. If the development described in Schedule 3 to this Order has not begun within the relevant period specified in Part 3 of the 1990 Act as being the duration of the planning permission, or the permission is revoked before the end of that period, this Order ceases to have effect upon the cessation of the planning permission.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

6 June 2019

*Richard Morgan*

Head of Planning, Asset Management & Standards  
Welsh Government

## YR ATODLENNI (Bras amcan yw pob mesuriad)

### ATODLEN 1

#### Disgrifiad o'r darn o briffordd sydd i'w gau o dan y Gorchymyn hwn

Darn petryalog ei siâp o briffordd sy'n mesur 119 o fetrau yn y man hiraf ac 11.5 o fetrau yn y man lletaf ac sy'n ymestyn i gyfeiriad y de-ddwyrain o bwynt i'r de o'r gweithdai hyd at bwynt i'r de-orllewin o faes parcio i gwsmeriaid ac ystafell arddangos eiddo Ron Skinner & Sons Car Sales, y briffordd gyfagos a'r hen Uned 6A yn Nhafarnau-bach, Tredegar.

### ATODLEN 2

#### Disgrifiad o'r darnau o'r briffordd y gwneir gwelliannau iddynt sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn hwn

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n mesur 41.65 o fetrau yn y man hiraf a 23.3 o fetrau yn y man lletaf ac

## SCHEDULES (All measurements are approximate)

### SCHEDULE 1

#### Description of the length of highway to be stopped up under this Order

A rectangular length of highway with a maximum length of 119 metres and a maximum width of 11.5 metres that extends in a south-easterly direction from a point south of the workshops to a point south-west of the customer car park and showroom of the premises of Ron Skinner & Sons Car Sales, adjacent highway and former Unit 6A Tafarnaubach, Tredegar.

### SCHEDULE 2

#### Description of the lengths of improved highway to be provided under this Order

An irregular shaped length of highway with a maximum length of 41.65 metres and a maximum

sy'n ffurfio man troi a throetffordd sy'n ymestyn o bwynt i'r gogledd-orllewin o'r ystafell arddangos hyd at bwynt i'r de-orllewin o weithdai eiddo Ron Skinner and Sons Car Sales, y briffordd gyfagos a'r hen Uned 6A yn Nhafarnau-bach, Tredegar.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n mesur 77.8 o fetrau yn y man hiraf a 20.5 o fetrau yn y man lletaf ac sy'n ffurfio man troi a throetffordd sy'n ymestyn tua'r de-orllewin o bwynt i'r de-orllewin o faes parcio i gwsmeriaid ac ystafell arddangos eiddo Ron Skinner and Sons Car Sales, y briffordd gyfagos a'r hen Uned 6A yn Nhafarnau-bach, Tredegar.

### **ATODLEN 3 Y Datblygiad**

Newid defnydd tir diwydiannol i werthu ceir, gan gynnwys gwaith tirweddu a darparu dau gaban yn ategol at werthu ceir, cau'r briffordd bresennol a newid y defnydd i werthu ceir. Bydd hyn yn cynnwys ailfodelu'r topograffi a thirweddu a darparu llwybrau cerdded dan do a mynedfa wedi ei haddasu i'r adeilad yn ychwanegol at y man gwerthu ceir presennol yn Ron Skinner & Sons Car Sales, y briffordd gyfagos a'r hen Uned 6A yn Nhafarnau-bach, Tredegar.

width of 23.3 metres forming a turning head and footway that extends from a point north-west of the showroom to a point south-west of the workshops of the premises of Ron Skinner & Sons Car Sales, adjacent highway and former Unit 6A Tafarnaubach, Tredegar.

An irregular shaped length of highway with a maximum length of 77.8 metres and a maximum width of 20.5 metres forming a turning head and footway extending south-westwards from a point south-west of the customer car park and showroom of the premises of Ron Skinner & Sons Car Sales, adjacent highway and former Unit 6A Tafarnaubach, Tredegar.

### **SCHEDULE 3 The Development**

The change of use of industrial land to car sales, including landscaping and provision of two portakabin buildings ancillary to car sales; closure of an existing highway and change of use to car sales, including remodelling of topography and landscaping; and the provision of covered walkways and modified building access ancillary to existing car sales use at Ron Skinner & Sons Car Sales, adjacent highway and former Unit 6A Tafarnaubach, Tredegar.

## **DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

### **GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TIR YN YSTAD DDIWYDIANNOL TAFARNAU-BACH, TREDEGAR, BLAENAU GWENT) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf") i awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn ac i wella'r darnau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn. Nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn gwneud y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir yn Ystad Ddiwydiannol Tafarnau-bach, Tredegar, Blaenau Gwent) 2019 ("y Gorchymyn"), yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopiâu o'r Gorchymyn a'r plan a adnewwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn Llyfrgell Tredegar, Y Cylch, Tredegar NP22 3PS neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1349706/1.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau'r Ddeddf; neu
- b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf;

o fewn 6 wythnos i 12 Mehefin 2019, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar [www.gweddill.gov.wales/legislation/subordinate](http://www.gweddill.gov.wales/legislation/subordinate) (Detholer: Offerynnau anstatudol/ Trafnidiaeth/ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref: gorchmynion cau/ 2019).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

## **TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990**

### **THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (LAND AT TAFARNAUBACH INDUSTRIAL ESTATE, TREDEGAR, BLAENAU GWENT) ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the Act") to authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Notice and to improve the lengths of highway described in Schedule 2 to this Notice. The stopping up is authorised only in order to enable the development described in Schedule 3 to this Notice to be carried out.

The Stopping Up of Highways (Land at Tafarnaubach Industrial Estate, Tredegar, Blaenau Gwent) Order 2019 ("the Order") ceases to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal opening hours at Tredegar Library, The Circle, Tredegar NP22 3PS or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1349706/1.

If a person is aggrieved by the Order, on the ground that:

- a. it is not within the powers of the Act; or
- b. a procedural requirement of the Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 12 June 2019 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Order and Notice can be viewed at [www.gweddill.gov.wales/legislation/subordinate](http://www.gweddill.gov.wales/legislation/subordinate) (Select: Non-Statutory Instruments/ Transport/ TCPA Stopping Up Orders/ 2019).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government

**YR ATODLENNI**  
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**ATODLEN 1**

**Disgrifiad o'r darn o briffordd sydd i'w gau o dan y Gorchymyn hwn**

Darn petryalog ei siâp o briffordd sy'n mesur 119 o fetrau yn y man hiraf ac 11.5 o fetrau yn y man lletaf ac sy'n ymestyn i gyfeiriad y de-ddwyrain o bwynt i'r de o'r gweithdai hyd at bwynt i'r de-orllewin o faes parcio i gwsmeriaid ac ystafell arddangos eiddo Ron Skinner & Sons Car Sales, y briffordd gyfagos a'r hen Uned 6A yn Nhafarnau-bach, Tredegar.

**ATODLEN 2**

**Disgrifiad o'r darnau o'r briffordd y gwneir gwelliannau iddynt sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn hwn**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n mesur 41.65 o fetrau yn y man hiraf a 23.3 o fetrau yn y man lletaf ac sy'n ffurfio man troi a throetffordd sy'n ymestyn o bwynt i'r gogledd-orllewin o'r ystafell arddangos hyd at bwynt i'r de-orllewin o weithdai eiddo Ron Skinner and Sons Car Sales, y briffordd gyfagos a'r hen Uned 6A yn Nhafarnau-bach, Tredegar.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n mesur 77.8 o fetrau yn y man hiraf a 20.5 o fetrau yn y man lletaf ac sy'n ffurfio man troi a throetffordd sy'n ymestyn tua'r de-orllewin o bwynt i'r de-orllewin o faes parcio i gwsmeriaid ac ystafell arddangos eiddo Ron Skinner and Sons Car Sales, y briffordd gyfagos a'r hen Uned 6A yn Nhafarnau-bach, Tredegar.

**ATODLEN 3**  
**Y Datblygiad**

Newid defnydd tir diwydiannol i werthu ceir, gan gynnwys gwaith tirweddu a darparu cabanau yn ategol at werthu ceir, cau'r briffordd bresennol a newid y defnydd i werthu ceir. Bydd hyn yn cynnwys ailfodelu'r topograffi a thirweddu a darparu llwybrau cerdded dan do a mynedfa wedi'i haddasu i'r adeilad yn ychwanegol at y man gwerthu ceir presennol yn Ron Skinner & Sons Car Sales, y briffordd gyfagos a'r hen Uned 6A yn Ystad Ddiwydiannol Tafarnau-bach, Tredegar, Blaenau Gwent.

Awdurdodir y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar 4 Rhagfyr 2017 o dan Ran 3 o'r Ddeddf o dan y cyfeirnod C/2017/0248.

**SCHEDULES**  
**(All measurements are approximate)**

**SCHEDULE 1**

**Description of the length of highway to be stopped up under this Order**

A rectangular length of highway with a maximum length of 119 metres and a maximum width of 11.5 metres that extends in a south-easterly direction from a point south of the workshops to a point south-west of the customer car park and showroom of the premises of Ron Skinner & Sons Car Sales, adjacent highway and former Unit 6A Tafarnaubach, Tredegar.

**SCHEDULE 2**

**Description of the lengths of improved highway to be provided under this Order**

An irregular shaped length of highway with a maximum length of 41.65 metres and a maximum width of 23.3 metres forming a turning head and footway that extends from a point north-west of the showroom to a point south-west of the workshops of the premises of Ron Skinner & Sons Car Sales, adjacent highway and former Unit 6A Tafarnaubach, Tredegar.

An irregular shaped length of highway with a maximum length of 77.8 metres and a maximum width of 20.5 metres forming a turning head and footway extending south-westwards from a point south-west of the customer car park and showroom of the premises of Ron Skinner & Sons Car Sales, adjacent highway and former Unit 6A Tafarnaubach, Tredegar.

**SCHEDULE 3**  
**The Development**

The change of use of industrial land to car sales, including landscaping and provision of portakabin buildings ancillary to car sales; closure of an existing highway and change of use for car sales, including remodelling of topography and landscaping; and the provision of covered walkways and modified building access ancillary to existing car sales use at Ron Skinner & Sons Car Sales, adjacent highway and former Unit 6A Tafarnaubach Industrial Estate, Tredegar, Blaenau Gwent.

The development has been authorised in accordance with the planning permission granted by Blaenau Gwent County Borough Council on 4 December 2017 under Part 3 of the Act under reference number C/2017/0248.

